


Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe: Newid ar gyfer y Dyfodol

Ein Cynllun ar gyfer Gwasanaethau Hydrotherapi ar ôl Covid-19

Dogfen ymgysylltu – Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Newid ar gyfer y Dyfodol. Ymgysylltu Cyhoeddus ar Ein Cynigion ar gyfer Gwasanaethau

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



v Efallai y bydd geiriau mewn ysgrifennu glas trwm yn anodd i'w deall. Gallwch chi edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar dudalen 17.



Pan fydd y ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl Cwsmer. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: <https://sbuhb.nhs.wales>

E-bost: SBU.engagement@wales.nhs.uk

Ffôn: 01639 683355



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, [cliciwch yma](#).

Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n wneud.....	4
Cyflwyniad.....	5
Ein Gwasanaeth Hydrotherapi.....	7
Hydrotherapi Cyn COVID-19.....	8
Sut y gwnaeth COVID-19 effeithio ar wasanaethau Hydrotherapi.....	9
Manteision ac Anfanteision ein cynlluniau ar gyfer gwasanaethau Hydrotherapi.....	13
Sut i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am ein cynlluniau ar gyfer gwasanaethau Hydrotherapi.....	15
Geiriau anodd.....	17

Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n wneud



Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe ydyn ni. Rydyn ni'n rhedeg eich holl wasanaethau GIG lleol yn:

- Castell Nedd
- Port Talbot
- Abertawe



Rydyn ni hefyd yn rhedeg gwasanaethau arbenigol ar gyfer pobl sy'n byw ymhellach i ffwrdd.

Rydyn ni'n cynllunio eich gwasanaethau GIG trwy weithio'n agos gyda:




- Ein cleifion a'u teuluoedd neu eu gofalwyr
- Y gwasanaeth ambiwlans




- Awdurdodau lleol
- Prifysgolio
- Elusennau

Cyflwyniad



Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â newidiadau i'n gwasanaethau **Hydrotherapi**.



Mae **Hydrotherapi** yn driniaeth ar gyfer rhai problemau iechyd, gan ddefnyddio symud mewn pwll arbennig. Mae sesiynau **Hydrotherapi** yn cael eu rhedeg gan Ffisiotherapydd.



Mae llawer o bobl yn ei chael hi'n haws gwneud ymarferion mewn dŵr.

Mae pwll **Hydrotherapi** yn arbennig oherwydd:

- Mae'r dŵr yn gynhesach sy'n helpu â:
 - Phoen
 - Ymlacio.





- Mae mynd i mewn i'r pwll yn haws ar gyfer pobl ag anableddau. Er enghraifft, mae **teclyn codi** ar gael.

Mae **teclyn codi** yn offer sy'n cael ei ddefnyddio i godi a gollwng pobl sydd ddim yn gallu symud ar eu pennau eu hunain.



Mae arnon ni eisiau gwneud newidiadau er mwyn darparu'r gwasanaeth **Hydrotherapi** gorau y gallwn ni.



Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am ein cynlluniau.

Ein Gwasanaeth Hydrotherapi

Mae gennym ni dri phwll **Hydrotherapi**. Un ym mhob un o'n prif ysbytai. Yr ysbytai yw:



- Ysbyty Treforys.
- Ysbyty Singleton.
- Ysbyty Castell Nedd Port Talbot.



Mae ein holl byllau **Hydrotherapi** yn wahanol.




Pwll **Hydrotherapi** Ysbyty Treforys:

- Hwn yw ein pwll hynaf.
- Gall wyth o bobl ei ddefnyddio ar yr un pryd.
- Mae mynd i mewn i'r pwll yn anodd.



Pwll **Hydrotherapi** Ysbyty Singleton:

- Gall chwech o bobl ei ddefnyddio ar yr un pryd.
- Mae parcio i'r anabl ar gael.
- Mae mynd i mewn yn hawdd.
- Gall grwpiau ac elusennau ei ddefnyddio gyda'r nos.



Pwll **Hydrotherapi** Ysbyty Castell Nedd Port Talbot:

- Hwn yw ein pwll mwyaf newydd.
- Gall tri o bobl ei ddefnyddio ar yr un pryd.
- Mae mynd i mewn yn hawdd.

Hydrotherapi Cyn COVID-19



Roedd ein pyllau i gyd ar agor am hyd at chwe awr o ddydd Llun i ddydd Gwener.



Nid oedd llawer o'r sesiynau **Hydrotherapi** yn cael eu defnyddio.



Mae'n ddrud cadw pwll ar agor pan na fydd yn cael ei ddefnyddio.

Sut y gwnaeth COVID-19 effeithio ar wasanaethau Hydrotherapi

Yn ystod pandemig COVID-19:



- Cynghorodd y Llywodraeth y dylai pob un o'r tri phwll gau.



- Roedd y pyllau yn Ysbytai Singleton a Chastell Nedd Port Talbot yn ddiogel i'w hagor eto ym mis Mai 2021.




- Maen nhw wedi bod ar agor am saith awr y dydd.




- Mae'r ddau bwl hwn wedi cael eu defnyddio drwy'r dydd, bob dydd.



- Nid yw'r pwll yn Nhreforys yn ddiogel i'w agor. Mae'n dal ar gau.



- Mae pawb wedi medru cael **Hydrotherapi** os oedd ei angen arnyn nhw yn ystod COVID-19 ers Mai 2021.




Rhoddodd y newidiadau hyn syniadau i ni sut i wella ein gwasanaeth Hydrotherapi ar gyfer y dyfodol.

Ein cynllun ar gyfer gwasanaethau Hydrotherapi ar ôl COVID-19



- Bydd y pwll yn Ysbyty Treforys yn cau yn barhaol.



- Bydd cleifion sy'n aros yn yr ysbyty yn defnyddio'r pwll yn Ysbyty Castell Nedd Port Talbot.



- Bydd cleifion sy'n teithio i ysbyty i gael **Hydrotherapi** yn mynd i'r pwll agosaf at eu cartrefi. Un ai yn:

- Ysbyty Castell-Nedd Port Talbot neu

- Ysbyty Singleton.



- Bydd grwpiau cymunedol ac elusennau yn gallu defnyddio'r pyllau yn:


- Ysbyty Castell Nedd Port Talbot ac

- Ysbyty Singleton.

Byddwn ni'n gwella ein gwasanaethau
Hydrotherapi yn y ddau bwl trwy:



- Eu cadw ar agor am hyd at ddeg awr y dydd.



- Meddwl am wneud y pyllau ar gael ar benwythnosau.



- Hyfforddi mwy o Ffysiotherapyddion i gefnogi'r gwasanaethau **Hydrotherapi**.




- Gweithio gyda chanolfannau hamdden lleol i gynnig gwasanaethau tebyg yn eu pyllau nofio.



- Meddwl sut y gall pobl gyrraedd sesiynau **Hydrotherapi** os nad oes ganddyn nhw gar.



- Prynu **teclyn codi** newydd ar gyfer y pwll yn Ysbyty Singleton.



- Gosod system dŵr poeth a gwresogi newydd ym mhwll **Hydrotherapi** Singleton.

Manteision ac Anfanteision ein cynlluniau ar gyfer gwasanaethau Hydrotherapi.

Manteision y newidiadau hyn fydd:



- Mynediad haws i byllau **Hydrotherapi**.



- Bydd mwy o gleifion yn medru cael triniaeth **Hydrotherapi**.



- Bydd mwy o staff yn cael eu hyfforddi i roi cefnogaeth mewn sesiynau **Hydrotherapi**.



- Mwy o gyfleoedd i grwpiau ddefnyddio'r ddau bwl **Hydrotherapi** gyda'r nosau ac ar benwythnosau.



- Cyfleoedd i bobl ddal ati i ymarfer mewn pwll yn eu canolfan hamdden leol.



- Bydd gwasanaethau **Hydrotherapi** yn agosach at adref i rai pobl.

Anfanteision y newidiadau hyn fydd:



- Bydd yn rhaid i rai pobl deithio'n bellach i gael **Hydrotherapi**.

- Ni fydd cleifion sy'n aros yn Ysbyty Treforys yn medru cael Hydrotherapi tan:



- y byddan nhw'n ôl gartref neu

- y byddan nhw'n symud i Gastell Nedd Port Talbot i orffen eu triniaeth.



Dim ond nifer fechan o gleifion fydd yn cael eu heffeithio gan hyn.


Sut i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am ein cynlluniau ar gyfer gwasanaethau Hydrotherapi.



Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl.



Bydd arnoch chi angen dweud wrthyn ni erbyn **18 Chwefror 2022**.



Gallwch chi ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl trwy:

Lenwi ffurflen ymateb.



Gallwch chi ofyn am ffurflen ymateb hawdd ei deall trwy ein:

Ffonio ni ar: 01639 683355



E-bostio ni yn: SBU.engagement@wales.nhs.uk

Ffyrdd eraill y gallech chi ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl:



Ysgrifennwch aton ni yn: Y Prif Weithredwr

BIP Bae Abertawe

1 Porthfa Talbot

Baglan

SA12 7BR



E-bostiwrch ni yn: SBU.engagement@wales.nhs.uk

Ffôn: 01639 683355

Facebook: Swansea Bay NHS

Twitter: @SwanseabayNHS

Geiriau anodd

Hydrotherapi

Mae **Hydrotherapi** yn driniaeth ar gyfer rhai problemau iechyd, gan ddefnyddio symud mewn pwll arbennig. Mae sesiynau Hydrotherapi yn cael eu rhedeg gan Ffysiotherapydd.

Teclyn codi

Mae **teclyn codi** yn offer sy'n cael ei ddefnyddio i godi a gollwng pobl sydd ddim yn gallu symud ar eu pennau eu hunain.